

Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Tystiolaeth i'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Amdanoch Chi

Unigolyn

1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y [Bil Cwricwlwm ac Asesu\(Cymru\)](#)?

Yn rhannol

1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)

Mae dirfawr angen i ddysgu Hanes Cymru yn drwyadl ar bob lefel addysgol. Mae'n rhaid dechrau wrth ein traed a dysgu'n plant a phobl ifanc i ddeall y ffactorau sydd wedi ffurfio'u cymunedau dros y canrifoedd. Mae'r arbenigedd hanesyddol i gael yng Nghymru i sicrhau bod y darlun cyflawn hwn yn cael ei gynnig o'n hanes.

Nid oes cyfiawnhad dros orfodi dysgu Saesneg i blant 4 oed, a gorfodi hynny fel norm ledled Cymru. Mae'r egwyddor o drochi plant yn y Gymraeg o oedran cynnar yn rhoi cyfle i blant ddod yn gwbl rhugl ynddi. Mae hen ddigon o Saesneg yn y byd o'n cwmpas i sicrhau y bydd plant yn dod yn rhugl ynddi o oedran hŷn. Roeddwn i'n un o'r 400 o bobl o fyd addysg a lofnododd lythyr i'ch sylw yn gynharach yn y flwyddyn i'r perwyl hwn. Credaf y dylech wrando ar ein gofynion, yn enwedig oherwydd nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig unrhyw gyfiawnhad addysgol na thystiolaeth dros wneud y Saesneg yn orfodol o 4 oed.

1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)

Mae angen deddfwriaeth i gryfhau'r ddarpariaeth o ddysgu Hanes Cymru fel yn achos rhagfarnu cadarnhaol o blaid cryfhau dysgu Cymraeg o oedran cynnar o fewn y cwricwlwm. Tameidiog yw'r darlun o gyflwyno'n hanes fel cenedl ac mae gormod o sylw hyd yn oed ar lefel cynradd i hanes Prydeinig a hyd yn oed Americanaidd. Mae gennyf wyrion sy'n mynd trwy system addysg Gwynedd, ac roedd yr addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yng Nghyfnod Allweddol 1 yn hollbwysig yn eu datblygiad. Roedd ac mae cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn 7 oed yn hen ddigon cynnar. Mae'r Saesneg yn un o iethoedd mwyaf pwerus y byd ac mae ei phresenoldeb ar draws cyfryngau lluosog yn golygu bod ein plant yn dod yn ymwybodol ohoni ar oedran cynnar iawn. **Ni ddylid deddfu i ddysgu Saesneg o bedair oed a dylid deddfu'n gadarnhaol o blaid dysgu'r Gymraeg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.**

2. Gweithredu'r Bil

2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)

-

2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)

-

3. Canlyniadau anfwriadol

3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)

-

4. Goblygiadau ariannol

4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r [Memorandwm Esboniadol](#))? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)

-

5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r [Memorandwm Esboniadol](#))? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.)

-

6. Ystyriaethau eraill

6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)

-